PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD LLUN, 7 MAWRTH 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Patel(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Derbyshire, Owen Jones, Jackie Parry, Owen, Sandrey a/ac Wong |

62 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Lancaster.

63 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

64 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD – Bod y cyhoedd yn cael eu heithrio wrth ystyried yr eitem ganlynol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth o'r math a ddisgrifir ym mharagraffau 14 a 21 o rannau 4 a 5 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

65 : RHAGLEN RHEOLI RISG ARFORDIROL - ACHOS BUSNES LLAWN A DYFARNU'R CONTRACT ADEILADU

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad cyfrinachol a briff ynghylch y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol.

PENDERFYNWYD – Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

66 : STRATEGAETH SDDD CAERDYDD

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad i helpu i graffu ar adroddiad drafft y Cabinet o'r enw 'Strategaeth Systemau Trafnidiaeth Ddeallus Caerdydd (SDDd). Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r Strategaeth yn cael ei hystyried gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar 10 Mawrth 2022. Gofynnir i'r Cabinet ystyried cymeradwyo'r canlynol:

- Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgysylltu ar Strategaeth ddrafft SDDd Caerdydd i lywio ei fframwaith terfynol.

- Cymeradwyo'r gwaith paratoi ar gyfer achos busnes amlinellol a fydd yn cynnwys opsiynau ar gyfer moderneiddio systemau Rheoli Traffig Trefol y Cyngor.

- Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, yn amodol ar ymgynghori â'r Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, i wneud mân ddiwygiadau i ffurf a chynnwys terfynol Strategaeth a holiadur ymgynghori SDDd drafft, a phenderfynu arnynt a'u cymeradwyo.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod systemau trafnidiaeth ledled y byd yn cael eu trawsnewid drwy ddefnyddio technoleg ddigidol. Rhwng 2018 a 2020, comisiynodd y Cyngor astudiaethau a chyhoeddodd ddogfennau allweddol yn cefnogi'r angen i fuddsoddi yn SDDd. Nododd y casgliadau allweddol fod angen gwelliannau trawsnewidiol i sicrhau y gall darpariaeth SDDd yng Nghaerdydd gyflawni uchelgeisiau'r Ddinas yn effeithiol.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Caro Wild, Yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth a swyddogion o’r Gwasanaeth Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd. Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad byr. Cafodd Aelodau wahoddiad i wneud sylwadau, ceisio eglurhad pellach neu i ofyn cwestiynau am y pwnc. Mae’r drafodaeth hon wedi ei chrynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am gyfanswm cost amcanestynedig gweithredu'r strategaeth a pha ffynonellau cyllid oedd ar gael i ddarparu a chynnal y gwasanaeth. Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oes rhaglen wedi'i chostio ar gyfer y strategaeth. Fodd bynnag, mae gan y gwahanol elfennau achos busnes. Er enghraifft, mae gan y Ganolfan Rheolaeth opsiynau ar gyfer ei lleoliad, ei maint, gweithio gyda phartneriaid a'r refeniw sydd ei angen i gefnogi'r opsiynau hynny, gan gynnwys Adran 106 a chyllid grant Llywodraeth Cymru. Roedd cyfleoedd hefyd i roi trwyddedau ar gyfer defnyddio data'r ystafell reoli a allai ddod â refeniw i mewn.

- Mynegodd yr Aelodau bryderon nad oedd cyfanswm cost y prosiect yn hysbys. Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai peidio â gwybod cyfanswm cost y prosiect yn peryglu mynediad at ffynonellau cyllid. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Cabinet ar hyn o bryd yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar y syniadau yn y strategaeth cyn i unrhyw achosion busnes ar gyfer elfennau'r rhaglen gael eu cwblhau. Mae angen ymgynghori â'r cyhoedd ar y syniadau ehangach ac ymgysylltu â phartneriaid cyn pennu achosion busnes o flaen llaw.

- Gofynnodd yr Aelodau a ellid cynnwys data cyfrif byw gan ddinasyddion yn ITS y Cyngor er mwyn deall yn well lefelau traffig sy'n effeithio'n wirioneddol ar gymunedau. Derbyniodd swyddogion fod technolegau newydd sy'n rhoi'r gallu i ddinasyddion gymryd rhan a bydd cyfleoedd. Fodd bynnag, nid yw'r data a gynhyrchir ar hyn o bryd yn gywir ond roedd potensial y gallai'r dechnoleg ddarparu lefel gywir o adborth yn y dyfodol. Derbyniwyd bod rhywfaint o ddata cywir ar amser teithio, cyflymder a llif traffig ar gael ar gyfer nifer o safleoedd a byddai'r Cyngor yn ceisio gwneud y defnydd gorau posibl o hynny a ffynonellau data eraill.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd bwriad rhwydwaith SDDd i gefnogi'r symudiad tuag at drafnidiaeth gynaliadwy. Dywedodd swyddogion fod SDDd yn canolbwyntio ar wneud y rhwydwaith yn effeithlon ar gyfer traffig cyffredinol, gan gynnwys bysiau. Nid yw'n rhoi blaenoriaeth i fysiau ar hyn o bryd ond mae bwriad i wneud hynny fel rhan o'r cynllun peilot coridor clyfar. Mae bwriad hefyd i weld a fydd SDDd yn gwella effeithlonrwydd signalau ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

- Holodd yr Aelodau sut y byddai SDDd yn wahanol i lwyfannau eraill o ran ei ddefnyddioldeb i drigolion. Cynghorodd swyddogion blatfform fel Google Maps sy'n caniatáu i ddefnyddwyr fewnbynnu lleoliad cychwynnol a chyrchfan ac mae'n cyfrifo amser a phellter taith yn dibynnu ar y dull teithio. Nid yw'n darparu unrhyw

wybodaeth am ddulliau eraill o deithio, ôl troed carbon a manteision iechyd. Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth â Thrafnidiaeth Cymru, yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu ap hollgynhwysol a fyddai'n caniatáu i bobl gynllunio eu teithiau'n well a chaniatáu hyrwyddo dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy.

- Roedd yr Aelodau o'r farn bod annog pobl i ddefnyddio opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy yn dibynnu ar sicrhau bod y gwasanaethau craidd hynny ar gael. Dywedodd swyddogion fod 3,300 o ymatebion wedi dod i law ar ymgynghoriad y Strategaeth Fysiau ac mae'r ymatebion yn cael eu hystyried. Mae'r angen am wasanaethau bysiau ehangach yn rhan o'r ystyriaeth honno. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried diwygio bysiau a allai ganiatáu i awdurdodau lleol gael mwy o reolaeth dros wasanaethau bysiau.

- Nododd yr Aelodau yr amcangyfrifir bod angen rhwng £1 a 2 biliwn i weithredu'r newidiadau angenrheidiol a bydd angen trafod y trefniadau ariannu ymhellach. Gofynnodd yr Aelodau a oedd taliadau tagfeydd yn cael eu hystyried. Dywedodd Aelodau'r Cabinet fod dinasoedd ledled y DU yn dod i'r un casgliad a bod llywodraeth y DU hefyd yn pryderu am y gostyngiad mewn refeniw treth wrth i gerbydau symud o betrol/diesel i drydan. Mae Llywodraeth y DU yn edrych ar wahanol fathau o godi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd. Mae'r Cyngor yn edrych ar wahanol opsiynau ac mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith yn yr ardal, gan gynnwys cynhyrchu Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru – a elwir yr Adroddiad Burns. Gwnaed penderfyniadau ar opsiynau ariannu yn agored ac fe'u nodir yn y Papur Gwyn ar Drafnidiaeth, sydd wedi cael cefnogaeth gan bob plaid.

- Rhoddodd yr Aelodau sylwadau ar nifer o'r cwestiynau yn yr arolwg arfaethedig. Cododd yr Aelodau bryderon bod y cwestiynau wedi'u geirio yn y fath fodd fel y byddai disgwyl i ymatebwyr roi ateb cadarnhaol. Roedd yr Aelodau hefyd yn pryderu am y cynnydd a wnaed tuag at ddarparu trafnidiaeth integredig yn y Ddinas. Derbyniodd swyddogion y pwynt a godwyd ynglŷn â'r cwestiynau yn yr arolwg a chroesawodd unrhyw adborth gan y Pwyllgor. Dywedodd swyddogion y bydd treial tocynnau integredig rhwng Caerdydd a Chasnewydd yn dechrau yn 2023.

- Cododd yr Aelodau bryderon am yr ymgynghoriad arfaethedig ac yn benodol sut y mae'r ymgynghoriad yn ceisio cyrraedd grwpiau anodd eu cyrraedd.

PENDERFYNWYD – Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw sylwadau, arsylwadau ac argymhellion a wnaed yn ystod y ffordd ymlaen.

67 : BUSNES Y PWYLLGOR

PENDERFYNWYD:

(1) Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Amgylcheddol ar Graffu 2021/22

(2) Nododd yr Aelodau gyflawniadau'r Pwyllgor i'w cynnwys yn Adroddiad Blynyddol 2021/22;

Nododd y Pwyllgor y ffordd ymlaen arfaethedig ar gyfer coladu canfyddiadau ac argymhellion hyd yma ymchwiliad y Cyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen i Opsiynau Strategol y CDLl Amnewid.

68 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau brys.

69 : Y FFORDD YMLAEN

70 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 16 Mawrth 2022.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00 pm